NSPCC

## Taflen Wybodaeth i Gymryd Rhan mewn Arolwg

Helo ’na!

Rydym yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg am bobl ifanc LHDTC+ (rhwng 13 a 19 oed) yn y DU ac Ynysoedd y Sianel, a’u profiadau o bwysau neu flacmel ar-lein.

Cyn i chi ddechrau, darllenwch y daflen wybodaeth isod. Mae’n ateb y rhan fwyaf o gwestiynau y gallai fod gennych am y gwaith ymchwil. Os oes gennych chi ragor o gwestiynau, cysylltwch â’r tîm ymchwil. Mae ein gwybodaeth gyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

### Beth yw pwysau neu flacmel ar-lein?

Blacmel ar-lein yw pan fydd rhywun yn ceisio dylanwadu ar rywun arall, neu roi pwysau arno, drwy ddweud y bydd yn rhannu pethau preifat — fel lluniau, fideos, negeseuon neu wybodaeth bersonol (fel rhywioldeb, hunaniaeth rhywedd neu berthnasoedd rhywun, yn enwedig os nad yw wedi rhannu’r pethau hyn â phobl eraill).

Gallai hyn gynnwys gofyn am luniau neu fideos (fel lluniau noeth), arian, cyswllt parhaus, neu aros mewn perthynas. Weithiau roedd y pethau preifat neu bersonol hyn wedi cael eu rhannu o wirfodd yn y lle cyntaf; ar adegau eraill efallai eu bod wedi cael eu cymryd, eu ffugio neu eu rhannu heb ganiatâd.

Weithiau gall yr unigolyn feithrin ymddiriedaeth i ddechrau drwy esgus bod yn rhywun arall. Dro arall, gall yr unigolyn fod yn rhywun rydych yn ei adnabod mewn bywyd go iawn.

Gall blacmel ar-lein ddigwydd drwy negeseuon preifat, sgyrsiau fideo, cyfryngau cymdeithasol, neu fannau eraill ar-lein — a rhwng dieithriaid, ffrindiau, aelodau o'r teulu, neu bobl mewn perthnasoedd.

### Pam rydym yn ymgymryd â’r astudiaeth hon?

Ychydig iawn a wyddwn am sut mae pobl ifanc LHDTC+ yn cael profiad o flacmel ar-lein. Rydym yn awyddus i ddeall yn well sut mae'r mathau hyn o sefyllfaoedd yn codi, a sut mae cefnogi pobl ifanc LHDTC+ pan fyddant yn digwydd.

Mae'r gwaith ymchwil hwn yn cael ei wneud gan ymchwilwyr LHDTC+ o Brifysgol Birmingham a Phrifysgol Nottingham Trent. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r NSPCC, sef elusen yn y DU sydd wedi ymrwymo i amddiffyn plant a phobl ifanc ac atal camdriniaeth.

Mae pobl ifanc LHDTC+ wedi helpu i ddylunio'r astudiaeth hon a byddant hefyd yn helpu i greu adnoddau hygyrch o'r canfyddiadau; gallwn rannu’r rheiny â’r gymuned LHDTC+ a chydag oedolion neu weithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am gefnogi pobl ifanc LHDTC+.

**Beth a gynhwysir yn yr arolwg hwn?**

Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan:

- Gofynnir i chi rannu pethau amdanoch chi eich hun, fel eich oedran, ble yn y DU rydych chi'n byw fel arfer (e.e. Cymru), eich cyfeiriadedd rhywiol a'ch hunaniaeth rhywedd. Dyma'r unig gwestiynau y byddwn yn gofyn i chi eu hateb. Ar ôl hynny, byddwch yn gallu anwybyddu unrhyw gwestiynau nad ydych chi'n dymuno eu hateb.
- Byddwn hefyd yn gofyn cwestiynau eraill amdanoch chi, megis a ydych chi dal yn yr ysgol neu a oes gennych chi unrhyw anableddau.
- Bydd y prif arolwg yn gofyn amrywiaeth o gwestiynau am eich profiadau o flacmel ar-lein, megis a ydych chi wedi cael profiad ohono, neu a oes gennych chi brofiad o wneud hyn i bobl eraill.

Beth bynnag fo'ch profiad, mae eich llais yn bwysig. Drwy rannu eich profiad a'ch barn, gallwch ein helpu i ddysgu sut i gynnig gwell cefnogaeth i bobl eraill mewn sefyllfaoedd tebyg ac atal hyn rhag digwydd yn y dyfodol.

Ar wahân i'r cwestiynau am gymhwysedd (oedran, lleoliad, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd), gallwch anwybyddu unrhyw gwestiynau nad ydych yn dymuno eu hateb.

Bydd yr arolwg yn cymryd oddeutu 15-20 i'w gwblhau.

**Oes rhaid i mi gymryd rhan?**

Chi sy'n dewis a ydych chi am gymryd rhan. Gallwch stopio ar unrhyw adeg. Os byddwch chi'n penderfynu cymryd rhan yn yr astudiaeth hon, bydd angen i chi roi caniatâd, sy'n golygu dweud wrthym eich bod yn deall yr ymchwil a'ch bod yn dymuno cymryd rhan. Byddwch yn cydsynio drwy glicio 'Ie' neu 'Na' wrth gwpwl o ddatganiadau yn yr arolwg (nid oes angen caniatâd ar lafar na llofnod)."

**Nid oes angen i chi gael caniatâd gan riant neu ofalwr i gymryd rhan.** Y rheswm am hyn yw am fod yr astudiaeth wedi'i chynllunio i gefnogi pobl ifanc LHDTC+, ac rydym yn deall nad pawb fydd yn teimlo'n ddiogel nac yn gyfforddus trafod y pynciau hyn gartref.

Mae eich atebion yn **ddienw ac yn gyfrinachol**. Ni fydd unrhyw un yn gwybod pwy ydych chi na beth rydych chi wedi'i ddweud. P'un a yw blacmel ar-lein wedi effeithio arnoch chi, neu eich bod wedi rhoi pwysau ar rywun arall, mae'n ddiogel i chi gymryd rhan. Rydym yma i ddeall, nid beirniadu. Gan fod eich atebion yn ddienw, ceisiwch fod mor onest â phosibl.

**Alla i newid fy meddwl?**

Ar ddechrau'r arolwg, gofynnir i chi greu cod arbennig sy'n unigryw i chi. Nodwch y cod hwn ar bapur neu tynnwch sgrinlun ohono a'i gadw yn rhywle diogel. Os hoffech chi siarad â ni am eich atebion yn nes ymlaen, bydd angen i chi roi’r cod hwn i ni er mwyn i ni allu dod o hyd i’ch gwybodaeth.

Gallwch roi’r gorau i'r arolwg ar unrhyw adeg drwy gau ffenestr eich porwr. Os byddwch chi’n gwneud hyn, ni fydd eich atebion yn cael eu cadw.

Os byddwch chi’n gorffen yr arolwg ond yn penderfynu yn ddiweddarach nad ydych chi’n dymuno i ni ddefnyddio eich atebion, mae hynny’n iawn hefyd. Gallwch anfon e-bost atom o fewn pythefnos ar ôl gorffen yr arolwg i ofyn i ni ddileu eich atebion. Nid oes yn rhaid i chi ddweud pam. Os byddwch chi’n anfon e-bost atom, cofiwch gynnwys eich cod unigryw fel ein bod yn gwybod pa atebion i'w dileu.

Cofiwch, os ydy eich enw neu fanylion personol eraill yn eich cyfeiriad e-bost, byddwn ni’n gweld hynny. Ond peidiwch â phoeni, os byddwch yn gofyn i ni ddileu eich data, byddwn yn dileu eich e-bost hefyd, felly ni fydd unrhyw beth yn cael ei gadw.

Ar ôl pythefnos, byddwn yn dileu'r codau arbennig o'r data er mwyn iddynt fod yn ddienw.

### A fydd fy atebion yn breifat? Sut bydd fy ngwybodaeth yn cael ei storio?

Rydym yn casglu eich atebion am fod hynny’n ein helpu i gael gwybod beth sy'n digwydd mewn gwirionedd—ac rydym yn gwneud hynny o dan rywbeth sy’n cael ei alw yn **“fuddiannau dilys”**. Mae hynny’n golygu: Rydym yn defnyddio eich data er mwyn helpu i wella'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc, ac rydym yn gwneud hynny mewn ffordd deg, barchus a diogel. Dim ond yr wybodaeth sydd ei hangen arnom i ddeall y mater ac i wella pethau y byddwn ni’n ei chasglu. Ni fyddwn yn defnyddio eich data i werthu unrhyw beth i chi nac i anfon hysbysebion atoch.

Ni fyddwn ychwaith yn rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag unrhyw un y tu allan i'r tîm ymchwil—oni bai bod pryderon o ddifrif am ddiogelu neu fod gennym gytundebau priodol ar waith (fel contractau swyddogol sy'n dilyn rheolau diogelu data, sef GDPR) i wneud yn siŵr bod eich gwybodaeth yn aros yn ddiogel.

Bydd eich atebion yn cael eu gwirio gan yr ymchwilwyr i wneud yn siŵr nad oes unrhyw un mewn perygl neu’n anniogel. Os byddwch chi'n ysgrifennu rhywbeth sy'n dangos bod rhywun mewn perygl difrifol a'ch bod yn cynnwys enw neu fanylion cyswllt, efallai y bydd yr ymchwilwyr yn camu i mewn i helpu—megis drwy ddweud wrth yr heddlu neu wasanaethau plant. Dim ond os oes ganddynt ddigon o wybodaeth i'ch cadw chi neu'r unigolyn hwnnw'n ddiogel y byddent yn gwneud hyn.

Byddwn yn cadw eich atebion yn ddiogel ar systemau sydd wedi'u diogelu â chyfrinair ym Mhrifysgol Birmingham. Dim ond y tîm ymchwil (a nodir isod) fydd yn gallu gweld y data.

Byddwn yn storio'r data'n ddiogel am hyd at bum mlynedd.

Byddwn yn rhannu canlyniadau'r gwaith ymchwil hwn yn gyhoeddus, er enghraifft, mewn adroddiad ar wefan yr NSPCC, mewn gwaith ysgrifenedig ac mewn cynadleddau, ond byddwn yn gwneud yn siŵr nad oes modd adnabod unrhyw un a gymerodd ran yn yr arolwg.

### A oes tâl am gymryd rhan?

***Nid oes tâl*** am gymryd rhan yn yr arolwg. Ond drwy rannu eich profiadau, rydych chi'n helpu ymchwilwyr a sefydliadau fel yr NSPCC i ddeall beth sy'n digwydd ar-lein mewn gwirionedd a sut y gallwn wneud pethau'n ddiogel ac yn fwy cefnogol i bobl ifanc LHDTC+ fel chi.

Ar ôl ei gwblhau, bydd canfyddiadau'r ymchwil hwn ar gael ar wefan y prosiect a hefyd ar wefan NSPCC learning.

### Beth os bydd gen i gwestiynau neu bryderon?

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr arolwg, gallwch gysylltu'n uniongyrchol â'r tîm ymchwil. Mae'r ddau ymchwilydd yn ystyried eu hunain yn LHDTC+, yn cadarnhau trawsrywedd, ac mae ganddynt brofiad o weithio ar bynciau sy'n ymwneud â LHDTC+:

- **Dr Willem Stander (ef/ei)** yn w.stander@bham.ac.uk
- **Dr Liam Cahill (ef/ei)** yn liam.cahill@ntu.ac.uk

Os oes gennych chi gŵyn am yr ymchwil, cysylltwch â:

- Mrs Sue Cottam (Rheolwr Moeseg) yn s.l.cottam@bham.ac.uk
- Swyddog Diogelu Data Prifysgol Birmingham: dataprotection@contacts.bham.ac.uk
- Gallwch hefyd roi gwybod i'r NSPCC. Gallwch anfon e-bost at researchcomplaints@nspcc.org.uk neu ffonio tîm Gofal Cefnogaeth yr NSPCC ar 020 7825 2505.

### Chwilio am gymorth?

**Nid yw'r arolwg hwn yn wasanaeth cymorth nac argyfwng.** Mae'r arolwg hwn yn gwbl ddienw. Mae hyn yn golygu na fyddwn yn gwybod pwy ydych chi ac ni fyddwn yn gallu cysylltu â chi nac unrhyw un arall, hyd yn oed os byddwch yn dweud rhywbeth wrthym sy'n ein poeni. Gan nad ydym yn gwybod pwy sy'n llenwi'r arolwg, ni fyddwn yn gallu gweithredu na chynnig cymorth os byddwch yn dweud wrthym am rywbeth sydd wedi digwydd i chi neu i rywun arall.

Fodd bynnag, rydym yn gwybod y gall rhai o’r pynciau yn yr arolwg hwn beri gofid neu ddod â theimladau anodd i’r wyneb. Os ydych chi'n teimlo'n anniogel, yn ypset neu'n ansicr am rywbeth sydd wedi digwydd i chi neu i rywun arall, mae'n bwysig eich bod yn deall nad ydych chi ar eich pen eich hun. Mae yna bobl a sefydliadau y gallwch chi droi atynt am gymorth a chyngor. Ystyriwch siarad ag oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo neu gysylltu ag un o'r gwasanaethau cymorth a restrir yma wefan y prosiect.